Adran Gwaith a Phensiynau

# Credyd Gofalwr

**Mae gennym lawer o wahanol ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi.**

Os oes angen braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, cysylltwch â ni.

Ein manylion cyswllt yw:

- Ffôn: **0800 731 0297**
- Ffôn testun: **0800 731 0317**
- Relay UK: **18001 yna 0800 731 0297.**

## Nodiadau

- Mae Credyd Gofalwr yn Gredyd Yswiriant Gwladol yw  ar gyfer pobl sy’n gofalu am un neu fwy o bobl anabl, am gyfanswm o 20 awr neu fwy yr wythnos.
- Gall Credyd Gofalwr helpu i ddiogelu eich hawl i Bensiwn newydd y Wladwriaeth.

Cadwch y nodiadau hyn er gwybodaeth.

Mae’r nodiadau yn rhoi gwybodaeth gyffredinol i chi yn unig ac nid ydynt yn ddatganiad cyflawn o’r gyfraith.

| |
|---|
| Cadwch y nodiadau mewn lle diogel. Nid oes rhaid eu dychwelyd â’r ffurflen. |

# Cynnwys

**Cymhwysedd** ........ **3**
Os yw rhywun arall hefyd yn edrych ar ôl y bobl rydych yn edrych ar eu holau........ 3
Os ydych yn cael seibiant mewn gofal ........ 3

**A allaf gael Credyd Gofalwr?** ........ **4**

**Tystysgrifau Gofal** ........ **5**

**Pryd i wneud cais** ........ **5**
Terfynau amser........ 6

**Sut i wneud cais** ........ **6**
Beth sy'n digwydd ar ôl i ni gael eich cais?........ 6

**Sut i gysylltu â ni** ........ **7**
Os ydych am wneud cwyn neu sylw........ 7

**A fydd Credyd Gofalwr yn effeithio ar fudd-daliadau eraill rwyf yn eu cael?** ........ **7**
Lwfans Gofalwr ........ 7

**Ble i fynd am help a chyngor** ........ **8**

**Sut mae Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu a defnyddio gwybodaeth** ........ **8**

## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Gydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Cydraddoldeb' ar **www.gov.uk**

# Cymhwysedd

Mae rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn ac o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth i gael Credyd Gofalwr.

Gallwch gael Credyd Gofalwr os ydych yn edrych ar ôl un neu fwy o bobl, am gyfanswm o 20 awr neu fwy bob wythnos, sy'n cael:

- Taliad Annibyniaeth Personol ar naill cyfradd yr Elfen Bywyd Bob Dydd neu'r llall
- Taliad Anabledd Oedolion ar y naill gyfradd neu'r llall o'r Elfen Bywyd bob Dydd
- elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu uchaf
- elfen ofal Taliad Plentyn Anabl ar y gyfradd gannol neu uchaf
- Lwfans Gweini
- Lwfans Gweini Cyson, neu
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog

Os yw'r bobl rydych yn gofalu amdanynt yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau hyn, bydd ganddynt lythyr yn dweud wrthynt pa gyfradd maent yn ei chael.

Gallwch hefyd gael Credyd Gofalwr os byddwch yn anfon Tystysgrifau Gofal wedi eu cwblhau atom. I ddarganfod mwy, gwelwch dudalen 5 o'r nodiadau hyn.

Nid oes cyfyngiadau ar nifer y bobl y gallwch edrych ar eu hôl.

Byddwch eisoes yn cael credydau os ydych yn cael Lwfans Gofalwr neu Fudd-dal Plant i blentyn o dan 12 oed. Mae hyn yn golygu nad oes angen i chi lenwi'r ffurflen gais.

Os ydych yn ofalwr maeth ac y byddwch yn cael Credydau Yswiriant Gwladol gan Gyllid a Thollau EM, nid oes angen i chi lenwi'r ffurflen gais.

Ni fyddwn yn talu arian i chi os oes gennych hawl i Gredyd Gofalwr.

Byddwn yn rhoi credydau Yswiriant Gwladol i chi.

Nid yw incwm, cynilion, na buddsoddiadau yn effeithio ar Gredyd Gofalwr.

## Os yw rhywun arall hefyd yn edrych ar ôl y bobl rydych yn edrych ar eu holau

Efallai y byddwch yn parhau i gael Credyd Gofalwr ond mae rhaid i'r nifer o oriau rydych yn edrych ar ôl y bobl hyn fod yn 20 awr neu fwy yr wythnos.

## Os ydych yn cael seibiant mewn gofal

Gallwch gael Credyd Gofalwr o hyd am unrhyw seibiannau o hyd at 12 wythnos yn olynol. Er enghraifft, byddwch yn dal i gael Credyd Gofalwr am 12 wythnos os:

- cymerwch wyliau byr
- bydd rhywun rydych yn edrych ar eu hôl yn mynd i'r ysbyty
- ewch i'r ysbyty.

Mae rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith os ydych yn cael seibiant mewn gofalu am fwy na 12 wythnos yn olynol.

# A allaf gael Credyd Gofalwr?

I ddarganfod a allech gael Credyd Gofalwr, atebwch y cwestiynau isod.

**01 A ydych yn byw ym Mhrydain Fawr fel arfer?**

Mae Prydain Fawr yn golygu Cymru, Lloegr, a'r Alban. Ticiwch Ydw os ydych yn rhan o deulu sy'n byw dramor â lluoedd EM.

- [ ] Nac ydw
- [ ] Ydw

**02 A ydych dros 16 oed?**

- [ ] Nac ydw
- [ ] Ydw

**03 A ydych o dan yr oedran y gallwch gael Pensiwn y Wladwriaeth?**

I ddarganfod yr oedran y gallwch gael ymweliad Pensiwn y Wladwriaeth ewch i **www.gov.uk/state-pension**

- [ ] Nac ydw
- [ ] Ydw

**04 A ydych yn edrych ar ôl un neu fwy o bobl am gyfanswm o 20 awr neu fwy bob wythnos?**

- [ ] Nac ydw
- [ ] Ydw

**05 A wnaethoch ateb Ydw i bob un o'r cwestiynau uchod?**

Mae Prydain Fawr yn golygu Cymru, Lloegr, a'r Alban. Ticiwch Ydw os ydych yn rhan o deulu sy'n byw dramor â lluoedd EM.

- [ ] Nac ydw — Ni allwch gael Credyd Gofalwr.
- [ ] Ydw — **Ewch i gwestiwn 06**

**06 A yw pob un o'r bobl rydych yn edrych ar eu holau yn cael:**

- Taliad Annibyniaeth Personol ar naill cyfradd yr Elfen Bywyd Bob Dydd neu'r llall
- Taliad Anabledd Oedolion ar y naill gyfradd neu'r llall o'r Elfen Bywyd bob Dydd
- elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu uchaf
- elfen ofal Taliad Plentyn Anabl ar y gyfradd gannol neu uchaf
- Lwfans Gweini
- Lwfans Gweini Cyson, neu
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog?

- [ ] Nac ydynt — Llenwch y ffurflen gais. Anfonwch hi atom â Thystysgrif Gofal wedi ei chwblhau ar gyfer pob person rydych yn edrych ar eu holau nad yw'n cael un o'r budd-daliadau hyn. Gallwch ddarganfod mwy am Dystysgrifau Gofal ar **dudalen 6** o'r **nodiadau** hyn.
- [ ] Ydynt — Llenwch **ffurflen gais CC1W** a'i hanfon atom.

# Tystysgrifau Gofal

Mae Tystysgrifau Gofal yn gadarnhad gan weithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol am faint o ofal sydd ei angen ar berson.

Anfonwch Dystysgrif Gofal atom am bob person rydych yn edrych ar eu holau nad ydynt yn cael:
- Taliad Annibyniaeth Personol ar naill cyfradd yr Elfen Bywyd Bob Dydd neu'r llall
- Taliad Anabledd Oedolion ar y naill gyfradd neu'r llall o'r Elfen Bywyd bob Dydd
- elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu uchaf
- elfen ofal Taliad Plentyn Anabl ar y gyfradd gannol neu uchaf
- Lwfans Gweini
- Lwfans Gweini Cyson, neu
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.

Mae rhaid i weithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol lofnodi pob tystysgrif wedi ei chwblhau.

Chi fydd yn dod o hyd i weithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol i lofnodi'r dystysgrif. Mae gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol yn golygu rhywun sy'n gwybod anghenion gofal yr unigolyn rydych yn edrych ar ei ôl.

Gallai hyn fod yn:
- nyrs ardal
- therapydd galwedigaethol
- gweithiwr cymdeithasol
- gweithiwr achos MIND, neu
- nyrs seiciatryddol gymunedol.

Os ydych yn gofalu am fwy nag un person, mae rhaid i nifer yr oriau a dreulir yn gofalu ychwanegu hyd at gyfanswm o 20 neu fwy bob wythnos.

Mae rhaid, naill ai:
- bod y bobl rydych yn edrych ar eu holau yn cael un o'r budd-daliau a restrir uchod, neu
- i chi anfon Tystysgrif Gofal am bob person.

Os bydd rhaid i chi anfon Tystysgrif Gofal atom ac nad ydych yn ei hanfon â'r **ffurflen CC1W**, efallai y bydd eich cais yn cael ei oedi.

Os oes angen mwy nag un Dystysgrif Gofal arnoch, gallwch lungopïo'r un yn y pecyn cais hwn.

Gallwch hefyd argraffu copi o **www.gov.uk/carers-credit**

Neu ffoniwch ni ar **0800 731 0297**.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear a ffonau symudol.

# Pryd i wneud cais

Gwnewch gais yn awr os ydych yn gofalu am un neu fwy o bobl, am gyfanswm o 20 awr neu fwy yr wythnos, sy'n cael:
- Taliad Annibyniaeth Personol ar naill cyfradd yr Elfen Bywyd Bob Dydd neu'r llall
- Taliad Anabledd Oedolion ar y naill gyfradd neu'r llall o'r Elfen Bywyd bob Dydd
- elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu uchaf
- elfen ofal Taliad Plentyn Anabl ar y gyfradd gannol neu uchaf

- Lwfans Gweini
- Lwfans Gweini Cyson, neu
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.

Os ydych edrych ar ôl unrhyw un sydd wedi hawlio un o'r budd-daliadau uchod ond eu bod yn aros am benderfyniad yn ei gylch, arhoswch nes eu bod yn cael y penderfyniad cyn i chi wneud cais.

Os na ddyfernir y budd-dal iddynt, bydd rhaid i chi anfon Tystysgrif Gofal iddynt atom.

Gwnewch gais nawr os gallwch anfon Tystysgrifau Gofal wedi eu cwblhau atom ar gyfer y bobl rydych yn edrych ar eu holau.

Y cynharaf y gallwch ofyn i'ch Credyd Gofalwr ddechrau ohono yw dechrau'r flwyddyn dreth lawn ddiwethaf.

Er enghraifft, os cwblhewch y ffurflen hon ar neu ar ôl 6 Ebrill 2021 y dyddiad cynharaf y gallwch ofyn i'ch Credyd Gofalwr ddechrau fyddai 6 Ebrill 2020.

Ni allwch wneud cais o ddyddiad yn y dyfodol.

### Terfynau amser

You must apply for Carer's Credit before the end of following tax year that you cared for someone.

Er enghraifft, os gwnaethoch ofalu am rywun rhwng 6 Ebrill 2020 a 5 Ebrill 2021 (blwyddyn dreth 2020-21), mae rhaid i chi wneud cais cyn 5 Ebrill 2022.

Efallai y cewch fwy o amser i wneud cais gan ddibynnu ar eich amgylchiadau. Os yw hyn yn wir, mae rhaid i chi roi'r rhesymau dros beidio â gwneud cais o fewn y terfyn amser arferol.

## Sut i wneud cais

Llenwch y ffurflen gais ac unrhyw Dystysgrifau Gofal sydd eu hangen arnoch i gefnogi'ch cais.

Cysylltwch â ni os nad Cymraeg yw eich iaith gyntaf ac yr hoffech wybod am ein gwasanaeth cyfieithu ar y pryd dros y ffôn.

Os ydych yn cael unrhyw anhawster i lenwi'r ffurflen gais, gall rhywun ei gwneud ar eich rhan. Gallwch ofyn i ffrind neu ganolfan gynghori. Gallwch hefyd ein ffonio am gymorth ar **0800 731 0297**.

Darllenwch **dudalen 8** o'r nodiadau hyn i ddarganfod mwy am yr help y gallwch ei gael.

### Beth sy'n digwydd ar ôl i ni gael eich cais?

- Ni fyddwn yn dweud wrthych fod gennym eich ffurflen gais
- Ein nod yw gwneud penderfyniad ar eich cais o fewn tair wythnos. Nid oes angen i chi gysylltu â ni yn yr amser hwn
- Lle bynnag y gallwn, byddwn yn eich ffonio os bydd angen mwy o wybodaeth arnom
- Byddwn yn ysgrifennu ac yn dweud wrthych a allwch gael Credyd Gofalwr ai peidio.

# Sut i gysylltu â ni

Ein rhif ffôn yw **0800 731 0297**. Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw, gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio ffôn testun ar **0800 731 0317**.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am Credyd Gofalwr ar **www.gov.uk/carers-credit**

Os ydych eisiau ysgrifennu atom, ein cyfeiriad yw:
**Carers Allowance Unit**
**Mail Handling Site A**
**Wolverhampton**
**WV98 2AB**

### Os ydych am wneud cwyn neu sylw

Gallwch ein ffonio ar **0800 731 0297** neu ysgrifennu atom yn y cyfeiriad a ddangosir uchod.

Ein nod yw ymateb i'ch cwyn o fewn 15 diwrnod gwaith o'i chael. Os na allwn ymateb i'ch cwyn o fewn yr amser hwn, byddwn yn dweud wrthych pam. Byddwn hefyd yn dweud wrthych pryd y cewch ateb llawn.

# A fydd Credyd Gofalwr yn effeithio ar fudd-daliadau eraill rwyf yn eu cael?

Ni fydd Credyd Gofalwr yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau neu hawliau eraill gallech fod yn eu cael.

P'un bynnag fudd-daliadau neu hawliau eraill sydd gennych, gallwch wneud cais am Gredyd Gofalwr os ydych yn gofalu am un neu fwy o bobl am gyfanswm o 20 awr neu fwy yr wythnos.

Os cewch Lwfans Gofalwr yn barod, neu os oes gennych hawl sylfaenol i Lwfans Gofalwr, nid oes angen i chi wneud cais am Gredyd Gofalwr. Mae hyn oherwydd eich bod yn cael credydau Yswiriant Gwladol yn barod.

### Lwfans Gofalwr

Gellir talu Lwfans Gofalwr i bobl sy'n gofalu am rywun am o leiaf 35 awr yr wythnos. Mae rhaid i'r sawl yr edrychir ar ei ôl gael:
- Taliad Annibyniaeth Personol ar naill cyfradd yr Elfen Bywyd Bob Dydd neu'r llall, neu
- elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu uchaf, neu
- elfen ofal Taliad Plentyn Anabl ar y gyfradd ganol neu uchaf, neu
- Lwfans Gweini, neu
- Lwfans Gweini Cyson, neu
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.

Gall budd-daliadau ac enillion eraill effeithio ar Lwfans Gofalwr.

Os ydych yn cael Lwfans Gofalwr, neu os oes gennych hawl sylfaenol i Lwfans Gofalwr, byddwch hefyd yn cael Credyd Gofalwr yn awtomatig am hyd at:
- 12 wythnos cyn i'ch Lwfans Gofalwr ddechrau, a
- 12 wythnos ar ôl i'ch Lwfans Gofalwr ddod i ben.

Mae hawl sylfaenol yn golygu eich bod yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr ond nad ydych yn cael eich talu amdano oherwydd budd-daliadau eraill a gewch.

Byddwch hefyd yn cael Credyd Gofalwr yn awtomatig os cewch Lwfans Gofalwr a chewch seibiant wrth edrych ar ôl rhywun am hyd at 12 wythnos yn olynol.

I ddarganfod mwy am Lwfans Gofalwr:
- ewch i **www.gov.uk/lwfans-gofalwr**
- gofynnwch i ganolfan gynghori fel Cyngor ar Bopeth, neu
- ffoniwch Uned Lwfans Gofalwr ar **0800 731 0297**.

Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw, gallwch gysylltu ag Uned Lwfans Gofalwr gan ddefnyddio ffôn testun ar **0800 731 0317**.

# Ble i fynd am help a chyngor

- Os ydych eisiau gwybodaeth am gymorth ariannol, hawliau, cyflogaeth, byw'n annibynnol a llawer mwy, ewch i **www.gov.uk**
- Os ydych eisiau gwybod am fudd-daliadau neu hawliau ewch i **www.gov.uk/browse/benefits**
- Gallwch hefyd gael help gan ganolfan gynghori. Er enghraifft:
  - Cyngor ar Bopeth, neu
  - gwasanaeth hawliau lles gan gyngor lleol
- Gallwch gysylltu â Carers UK a all gynnig cyngor ar ystod o faterion. Eu rhif llinell gymorth yw ffôn rhydd **0808 808 7777**. Mae'r llinellau ar agor rhwng 10am a hanner dydd ac o 2pm i 4pm ar ddydd Mercher a dydd Iau yn unig. Gallwch ymweld â gwefan Carers UK ar **www.carersuk.org**

# Sut mae DWP yn casglu a defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch gallwn ei defnyddio ar gyfer unrhyw un o'n dibenion.

Mae'r rhain yn cynnwys delio â:
- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- cynllunio ariannol at ymddeol
- cynlluniau pensiynau galwedigaethol a phersonol.

Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o'n dibenion fel y mae'r gyfraith yn ei chaniatáu i ni wneud. Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth amdanoch â sefydliadau eraill fel mae'r gyfraith yn ei chaniatáu i ni wneud.

I ddarganfod mwy am sut rydym yn defnyddio gwybodaeth, ewch i'n gwefan **www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol** neu gysylltu ag unrhyw un o'n swyddfeydd.

### Costau galwadau

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol personol a llinellau daear.